Clerc / Clerk Gwenda Owen
Cyfeiriad/Address: Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ
Ffon/Tel:01407 740046
Ebost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
Safle we: http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: http://www.valley-community-council.wales

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor / *Minutes of the Council's Meeting***
**17.02.21 7.00 yh/pm**
***Cyfarfod o Bell/Remote Meeting***

*Gall aelodau o'r cyhoedd neu'r wasg ofyn am fynediad drwy ebostio'r clerc ar valleycommunitycouncil.com*
*/*
*Members of the public or press may request access by emailing the clerk at valleycommunitycouncil.com*

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Croeso | Welcome |
| 2 | Presennol<br>Cynghorwyr:<br>K Taylor (Cadeirydd)<br>N Tuck (Is Gadeirydd)<br>G Browne, MBE<br>H Wilson<br>W R Rogerson MBE<br>C Torr<br>Adam J Owen<br>M Swaine Williams<br>C Furlong<br>C Seeley<br>I Jones<br>A W Owen<br><br>Cynghorydd Sir G Jones<br><br>Ymddiheuriadau<br>Cynghorydd Sir R A Dew<br><br>Presennol:<br>G Owen Clerc | Present<br>Councillors<br>K Taylor (Cadeirydd)<br>N Tuck (Is Gadeirydd)<br>G Browne, MBE<br>H Wilson<br>W R Rogerson MBE<br>C Torr<br>Adam J Owen<br>M Swaine Williams<br>C Furlong<br>C Seeley<br>I Jones<br>A W Owen<br><br>County Councillor G Jones<br><br>Apologies<br>County Councillor R A Dew<br><br>Also present:<br>G Owen Clerk |
| 3 | Datganiad o ddiddordeb<br><br>Dim wedi ei derbyn | Declaration of interest<br><br>Nil received. |
| 4 | Cofnodion Cyfarfod 20.01.21<br><br>Derbynnwiyd y cofnodion fel cofnod cywir.<br><br>Cynnig/Eil WR/CT | Minutes of meeting 20.01.21<br><br>It was resolved to accept the minutes as a true and accurate record.<br><br>Prop/Sec WR/CT |
| 5 | Materion yn codi 20.01.21 | Matters arising 20.01.21 |
| 5.1 | Ymgynghoriad y cloc – diweddariad<br><br>Adroddodd y clerc y byddai'r holiadur ymgynghori | Clock consultation update<br><br>The clerk reported that the consultation |

| | | |
|---|---|---|
| | ar wefan y Cyngor Cymuned yn fuan. | questionnaire would be on the Community Council website shortly. |
| 5.2 | Ffioedd les clybiau pel droed<br>Roedd yr ebost a dderbynniwyd oddiwrth y Clwb Pel Droed Iau wedi ei gylchredeg. Cytunnwyd y byddai ffioedd ar gyfer 2021/22 yn cael eu hadolygu pan oedd yn amser gyrru anfonebau allan mis Gorffennaf.<br><br>Cynnig/Eil CT/MSW | Football club lease fees<br>The email received from the Junior Football Club had been circulated. It was resolved that fees for 2021/22 be reviewed when invoices were due to be sent in July.<br><br>Prop/Sec CT/MSW |
| 6 | Materion Plwyfol | Parochial Matters |
| 6.1 | Cwyn ynglyn a phroblemau traffig / parcioStation Road<br><br>Yn dilyn pryderon a godwyd ynglyn a risg o niwed i gerddwyr oherwydd parcio anystyriol ar Station Road, tynnwyd y mater Isylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Cadarnhaodd Swyddog eu bod wedi derbyn nifer o alwadau ynglyn a'r sefyllfa a wedi gyrru swyddogion gorfodaeth parci i'r ardal, fodd bynnag fe wnaeth gydnabod fod hyn yn helpu'r sefyllfa ar yr adeg ond pan nad oedd swyddogion parcio yn y man, 'roedd y broblem parcio yn ail-godi.<br><br>Oa oedd arian grant ar gael yn y gorffennol ar gyfer croesfan ee zebra neu puffin tu allan I'r siopao yn Valley, codwyd pryderon ynglyn a cholli lle parcio a'r effaith ar ddanfoniadau I'r siopau. Fodd bynag, yn dilyn tynnu'r llefydd parcio, a'r parcio di-dal ar gael yn y maes parcio gerllaw, 'roedd y sefyllfa wedi newid. Gofynnodd y Cyngor pa lefel o gefnogaeth fyddai yn y pentre ar gyfer gosod croesfan ar Station Road. Byddai hyn, nid yn unig yn help cerddwyr ond hefyd yn gwella rhediad y traffig ar hyd Station Road gan y byddai gyrrwyr yn llai tebygol o barcio ar farciau zig-zag sydd yn cael ei gosod pob pen i'r groesfan. Pe byddai gyrrwyr yn parcio ar y marciau, byddai cosb ar unwaith yn cael roi am hyn ac nid oes unrhyw waharddiadau am barcio ar groesfan. Pe byddai cefnogaeth am groesfan, byddai cynllun newydd a chostau yn cael eu paratoi gan y Cyngor a gwaith i chwilio am ffynhonnell i ariannu hyn, gyda chais grant yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Oherwydd fod y groesfan rheilffordd yn agos, byddai angen trafod gyda Network Rial yn fuan oherwydd byddai hyn yn gallu effeithio ar y math o groesfan fyddai yn cael ei gosod. Byddai'r gwaith o sicrhau arian yn gallu cael ei wneud yn | Complained re traffic/ parking issues Station Road<br><br>Following concerns raised about the risk of injury to pedestrians due to inconsiderate parking on Station Road, the matter had been brought to the attention of Isle of Anglesey County Council's Highways Department.<br><br>An officer confirmed that they had received numerous calls regarding the situation and, in response had deployed its parking enforcement officers to the area, however acknowledged that whilst this helped the situation at the time, when the parking officers were not in attendance, the parking issue reoccurs.<br><br>When grant funding was available in the past to provide a crossing point such as a zebra or puffin outside the shops in Valley, concerns had been raised about the loss of parking and implications of deliveries to the shops. However, following the removal of the parking spaces, and free parking made available in the nearby car park the situation has changed. The Council enquired as to the degree of support for the installation of a crossing on Station Road. This would not only facilitate pedestrians but also improve the flow of traffic along Station Road as motorists would not be as likely to park on zig-zag markings which are provided on each side of the crosssings If a motorist did park on the markings then an instant penalty could be issued for this contravention and there are no exemptions for parking on a crossing point. Should there be support for a crossing point then new plans and costings could be drawn up by the Authority and work undertaken on finding a source of funding and the submission of a grant application to Welsh Government. Owing to the nearby railway crossing any proposal would need to be discussed with |

| | | |
|---|---|---|
| | 2021/22 gyda'r bwriad o osod y groesfan yn 2022/23<br><br>'Roedd yr aelodau yn gefnogol o osod croesfan a cytunnwyd i geisio cael safbwyntiadau trigolion y pentref drwy holiadur i'w osod ar y wefan er mwyn pwyso mesur cefnogaeth lleol.<br><br>Cynnig/Eil MSW/HW | Network Rail at an early stage which may have implications as to the type of crossing which could be installed. The work of securing funding could be undertaken in 2021/22 with a view to installing a crossing in 2022/23. Members were supportive of the installation of a crossing and resolved to seek the views of the residents of the village by means of a questionnaire to be placed on the website in order to establish local support.<br><br>Prop/Sec MSW/HW |
| 6.2 | Cwyn ynglyn a safleoedd yn y pentref<br><br>Derbynnwyd cwyn ynglyn a chyflwr rhai safleoedd yn y pentre a chytunnwyd i symud ymlaen fel a ganlyn:-<br><br>1. Modurdy – holi ynglyn a chynllun i adnewyddu'r safle ond hefyd codi pryder ynglyn a chyflwr y canopi a'r wal o safbwynt iechyd a diogelwch.<br>2. Safle ger Gwesty'r Bull – eiddo "dolur-llygaid" ac angen gwneud cais i Gyngor Sir Ynys Mon i ymchwilio'r sefyllfa ac, os yn bosib gofyn i'r perchennog dwtio y safle.<br>3. Beecroft - dim gweithred bellach oherwydd fod y mater wedi cael ei dynnu at sylw Cyngor Sir Ynys Mon yn ddiweddar a nododd nad oedd yn gwarantu ymyrraeth<br>4. Yr hen siop Valley Design – eiddo "dolur-llygaid" gyda llechi yn slipio oddiar y to – gofyn i Gyngor Sir Ynys Mon ymchwilio'r sefyllfa ac, os yn posib, gofyn i'r perchennog dwtio'r safle a gwneud yn saff fel bo'r angen.<br><br>Cynnig/Eil HW/IWJ | Complaint regarding sites in the village<br><br>A complaint had been received regarding the condition of a number of sites in the village and it was resolved to proceed as follows:-<br><br>1. Garage – enquire as to the plan to renovate the site but also raise concerns about the condition of the canopy and the wall from a health and safety perspective.<br>2. Site next to the Bull Hotel – eyesore property with a request to Isle of Anglesey County Council to investigate the situation and, if possible, request the owner to tidy up the site.<br>3. Beecroft – no further action as the matter had recently been drawn to the attention of Isle of Anglesey County Council who indicated that it did not warrant intervention.<br>4. The old Valley Design shop – eyesore property with some slates slipping off roof – request Isle of Anglesey County Council to investigate the situation and, if possible, request the owner to tidy up the site and make safe if required.<br><br>Prop/Sec HW/IWJ |
| 6.3 | Parc mwd<br><br>Sbwriel - Adroddodd y cadeirydd fod grwp lleol wedi cynnig mynychu bob dydd Llun o 1af Ebrill ymlaen i godi sbwriel a gwneud man waith sydd ei angen ym Mharc Mwd. Fe fyddai angen mynediad i'r toiledau yn ystod y dydd.<br><br>Cytunnwyd i gysylltu gyda'r grwp i drefnu.<br><br>Cynnig/Eil HW/CT<br><br>Diolchwyd i Gynghorwyr Seeley a Browne were am glirio'r sbwriel yn ddiweddar. | Parc Mwd<br><br>Rubbish – The chairman reported that a local group had offered to attend every Monday from 1st April onwards to pick up rubbish and undertake odd jobs required in Parc Mwd. They would require access to the toilet.<br><br>It was resolved to contact the group to arrange.<br><br>Prop/Sec HW/CT.<br><br>Councillors Seeley and Browne were thanked for clearing the rubbish recently |

| | | |
|---|---|---|
| | Graffiti yn y twnnel<br><br>Roedd yr ardal yma yn disgyn o dan gyfrifoldebau UK Highways ac roedd Ardran Briffyrdd y Cyngor Sir wedi tynnu ei sylw at y graffiti gwrth-gymdeithasol gyda nhw. Y sefyllfa i gael ei monitor. Fe fyddai y grwp lleol yn fodlon paentio drosodd pe byddai nwyddau ar gael ond byddai angen cael caniatad UK Highways.<br><br>Cau giatiau'r parc – Hyd nes y bydd y grwp lleol wedi cychwyn ar y gwaith clirio rheolaidd, cynnigwyd a phenderfynnwyd y byddai Cyng Torr yn cau giatiau'r parc am 8.00 yh bob nos ac ail-agor am 8.00 yb hyd nes 1af Ebrill. Hysbyseb i'w osod ar wefan y Cyngor Cymuned.<br><br>Cynnig/Eil HW/WR | Graffiti in the tunnel<br><br>This area was the responsibility of UK Highways and Isle of Anglesey County Council's Highways Department had raised the issue of offensive graffiti with them. The situation is to be monitored. The local group would be willing to paint over if materials were available but UK Highways' permission would be required.<br><br>Closure of park gates – ~Until the local group commenced the regular clearing work, it was proposed and resolved that Coun Torr close the gates to the park at 8.00 p.m. each evening and re-open at 8.00 a.m. until 1st April. Notice to be placed on Community Council website.<br><br>Prop/Sec HW/WR |
| 7 | Deddf Gynllunio Gwlad a Thref | Town and County Planning Act |
| 7.1 | Ceisiadau | Applications |
| | Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / 4 Ffordd Llewelyn, Y Fali<br><br>Dim sylwadau cyn belled a fod ymgynghoriad gyda chymdogion.<br><br>Cynnig/Eil CT/HW | Full application for alterations and extensions at 4 Ffordd Llewelyn, Valley<br><br>No observations subject to neighbourhood consultation.<br><br>Prop/Sec CT/HW |
| | Cais llawn ar gyfer codi anecs dau lawr yn Yr Erw, Y Fali / Valley<br><br>Dim sylwadau cyn belled a fod ymgynghoriad gyda chymdogion<br><br>Cynnig/Eil WR/GB | Full application for alterations and extensions at 4 Ffordd Llewelyn, Valley<br><br>No observations subject to neighbourhood consultation.<br><br>Prop/Sec WR/GB |
| 7.2 | Pendefyniadau | Decisions |
| 7.3 | Cais llawn ar gyfer codi garej newydd ar wahân yn Unit 7, Cleifiog Fawr, Y Fali<br><br>Wedi ei ganiatau | Full application for the erection of a detached garage at Unit 7, Cleifiog Fawr, Valley<br><br>Approved |
| 8 | Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn | Anglesey County Council Correspondence |
| 8.1 | Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad – wedi ei gylchredeg a'i nodi. | Executive's forward work programme – update – circulated and noted |
| 8.2 | Datganiad - Cynllun Bioamrywiaeth newydd er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid - Nodwyd | PR - New Biodiversity Plan to help tackle climate change - Noted |
| 9 | Gohebiaeth Unllais Cymru | One Voice Wales Correspondence |
| | Ymgynghoriad - Canllawiau drafft newydd Cod Ymddygiad – wedi ei gylchredeg, dim sylwadau. | Consultation – New draft Guidance Code of Conduct - circulated, no comments. |
| 10 | Materion Ariannol | Financial Matters |
| 10.1 | Manylion Cyfrifon Balans 26.01.21 | Details of Accounts Balanaces 26.01.21 |
| | Trysorydd £19,527.17 | Treasurer £19,527.17 |

Arwyddwyd/Signed ……………………….. (Cadeirydd/Chairman) Dyddiad/Date 17.03.21

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoli Busnes | £16,697.88 | Business Manager | £16,697.88 |
| | Ynys Wen | £18,532.18 | Ynys Wen | £18,532.18 |
| | Cyfalaf | £2,080.05 | Capital | £2,080.05 |
| | Cyfrif Trysorydd – sieciau heb eu cyflwyno £301.20, arian ar gael £19225.27) | | (Treasurer account – unpresented cheques £301.20, actual funds available £19225.27) | |
| | Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali.<br>Cynnig/Eil MSW/CT | | Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.<br>Prop/Sec MSW/CT | |
| 10.2 | Taliadau i'w gwneud mis Chwefror (£) | | Payments to be made February (£) | |
| | Mrs G Owen (Ionawr) | £504.90 | Mrs G Owen (January) | £504.90 |
| | Mon Grass Cutting (Triongl Parc Mwd (£750) a choed Ynys Wen (£180)) | £930.00 | Mon Grass Cutting Limited (Triangle Parc Mwd (£750) and tres Ynys Wen. (£180) | £930.00 |
| | TDP (meinciau) | £779.06 | TDP (Benches) | £779.06 |
| | Cyng K Taylor (Lwfans) | £520.00 | Coun K Taylor (allowances) | £520.00 |
| | Cyng C Seeley (Lwfans) | £120.00 | Coun K Seeley (Allowance) | £120.00 |
| | Cyng W Rogerson (lwfans) | £240.00 | Coun W Rogerson (Allowance) | £240.00 |
| | Cyng C Torr (Lwfans) | £400.00 | Coun C Torr (Allowance) | £400.00 |
| | Mrs G Owen - stationery | £24.56 | Mrs G Owen – stationery | £24.56 |
| | Mrs G Owen stamps | £19.41 | Mrs G Owen - stamps | £19.41 |
| | Derbynnwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o Rheoliadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali.<br><br>Cynnig/Eil MSW/CT | | Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations.<br><br>Prop/Sec: MSW/CTT | |
| 10.3 | Taliadau Uniongyrchol | | Direct Debit Payments | |

| | Cwmni Company | Mis Month | Cyflenwad Supply | Parc Mwd (£) | Cloc/Clock (£) | Ynys Wen (£) | Play Park (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Scottish Power | Ion/Jan | Trydan Electric | 43 | 11.00 | 0 | 0 |
| | CSYM IOACC | Ion/Jan | Treth Cyngor Council Tax | 36.00 | 0 | 0 | 0 |
| | British Telecom | Ion/Jan | Ffon | 90.12 | 0 | 0 | 0 |
| | Dwr Cymru | | Dwr Water | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | PWLB | | | | | | |
| | Veolia | | Bin | | 15.96 | | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| 10.4 | Cyflwyno Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 3.2.21 (KT)<br><br>Cytunnwyd i dderbyn Cofnodion y Pwyllgor Cyllid<br><br>Cynnig/Eil MSW/CT<br><br>Materion yn codi<br><br>1. Adolygu Rheolau Sefydlog, - cytunnwyd i dderbyn y Rheolad Sefydlog. Cynnig/Eil WR/CT.<br>2. Adolygiad Asesiad Risg Ariannol – cytunnwyd i ychwanegu y risg pe byddai y Cyngor yn | Presentation of Minutes of Finance Committee Meeting 3.2.21 (KT)<br><br>It was resolved to accept the Minutes of the Finance Committee.<br><br>Prop/Sec MSW/CT<br><br>Matters arising<br><br>1. Review of Standing Orders – it was resolved to accept the Standing Orders. Prop/Sec WR/CT<br>2. Review of the Financial Risk Assessment – it was resolved to include the risk should |

| | | |
|---|---|---|
| | cytunno I beidio a chodi ffi ar y clybiau pel droed a hefyd y dylai cael dyfynbris am yswiriant talu cyflog pe byddai'r clerc yn sal, ynghyd a derbyn ar Asesiad Risg diwygiedig. Cynnig/Eil CT/HW.<br><br>3. Adolygiad Rheolau Ariannol – Cytunnwyd i dderbyn y Rheolau Ariannol. Cynnig/Eil CT/HW<br><br>4. Asesiad Risg Parc Mwd a Choed<br><br>'Roedd gwaith wedi cychwyn ar asesiad risg a chytunnwyd i drefnu cyfarfod Pwyllgor y Parciau i weithredu ymhellach a gnwued arolwg o'r coed ar safleoedd ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned.<br><br>Clerc i gylchredeg ebost cychwynnol Cyng. Browne.<br><br>Cynnig/Eil CT/HW<br><br>5. Defnyddio rhan o'r maes parcio ar gyfer compound gwaith arbed llifogydd tu ol i'r maes parcio cyhoeddus<br><br>Cytunnwyd i ganiatau defnydddio rhan o'r maes parcio ar gyfer compound gwaith a gofyn i'r Cyngor Sir gysidro lleihau y gost i'r Cyngor Cymuned yn ystod y cyfnod yma neu cytunno i beidio codi'r ffi presennol am gyfnod o 5 mlynedd.<br><br>Cynnig/Eil HW/CT. | the Council agree not to raise a fee on the football clubs and request a quotation for insurance to cover the clerk's salary should she be ill, together with accepting the revised Risk Assessment. Prop/Sec CT/HW<br><br>3. Review of Financial Regulations – it was resolved to accept the Financial Regulations. Prop/Sec CT/HW<br><br>4. Risk Assessment Parc Mwd and trees<br><br>Work had commenced on the risk assessment and it was resolved to arrange a meeting of the Parks Committee to undertake further work and a survey of the trees on sites under the Community Council's ownership.<br><br>Clerk to circulate Coun. Browne's initial email.<br><br>Prop/Sec CT/HW<br><br>5. Use of part of the car park for a compound to enable flood alleviation work behind the public car park.<br><br>It was resolved to agree to the use of part of the car park for a works compound during the work and to request the County Council to consider reducing the cost to the Community Council during this period or agree not to increase the current fee for a period of five years.<br><br>Prop/Sec HW/CT |
| 10.5 | Cais am Gerdyn Debyd<br><br>Cytunnwyd cymeradwyo Mrs Gwenda Owen, clerc a swyddog ariannol gyflwyno cais am cerdyn debud I'w ddefnyddio ar ran Cyngor Cymuned y Fali ac o fewn canllawiau y Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol.<br><br>Cynnig/Eil: WR/MSW | Request for Debit Card<br><br>It was resolved that approval be granted for Mrs Gwenda Owen , clerk and Responsible Financial Officer to submit an application for a debit card to be used on behalf of Valley Community Council and in line with the Standing Orders and Financial Regulations.<br><br>Prop/Sec WR/MSW |
| 11 | Gohebiaeth Amrywiol | Miscellaneous Correspondence |
| 12 | Dyddiad Cyfarfod Nesaf<br>17.03.21 7.00 Cyfarfod o bell | Date of Next Meeting<br>17.03.21 7.00 pm Remote Meeting |

Arwyddwyd/Signed ……………………….. (Cadeirydd/Chairman) Dyddiad/Date 17.03.21